*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1018

# Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.** Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 21 Ebrill 2015 a'u henw yw Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015.

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "cerbytffordd", "llain galed" a "llain ymyl" yr un ystyr â "carriageway", "hard shoulder" a "verge" yn Rheoliadau 1982;

ystyr "yr M4" ("*the M4*") yw Traffordd yr M4 o Lundain i Dde Cymru;

ystyr "Rheoliadau 1982" ("*the 1982 Regulations*") yw Rheoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982(**1**); ac

ystyr "Rheoliadau 2002" ("*the 2002 Regulations*") yw Rheoliadau Arwyddion Traffig 2002(**2**).

**Cymhwyso terfyn cyflymder amrywiadwy**

**3.**—(1) Ni chaiff neb yrru cerbyd ar ran o ffordd sy'n ddarostyngedig i derfyn cyflymder amrywiadwy yn gyflymach na'r hyn a ddangosir gan arwydd terfyn cyflymder.

(2) Mae rhan o ffordd yn ddarostyngedig i derfyn cyflymder amrywiadwy mewn perthynas â cherbyd sy'n cael ei yrru arni—

(a) os yw'r ffordd wedi ei phennu yn yr Atodlen;

(b) os yw'r cerbyd wedi pasio arwydd terfyn cyflymder; ac

(c) os nad yw'r cerbyd wedi pasio—

(i) arwydd terfyn cyflymder arall sy'n dangos terfyn cyflymder gwahanol; neu

(ii) arwydd traffig sy'n dangos bod y terfyn cyflymder cenedlaethol mewn grym.

(3) Mewn perthynas â cherbyd, y terfyn cyflymder a ddangosir gan arwydd terfyn cyflymder yw'r cyflymder a ddangosir ar yr adeg y mae'r cerbyd yn pasio'r arwydd, neu, os yw'n uwch na hynny, y terfyn cyflymder a ddangoswyd gan yr arwydd ddeng eiliad cyn i'r cerbyd basio'r arwydd.

(4) At ddiben y rheoliad hwn, bernir nad yw arwydd terfyn cyflymder yn dangos unrhyw derfyn cyflymder os oedd yr arwydd, ddeng eiliad cyn i'r cerbyd ei basio, wedi dangos nad oedd terfyn cyflymder neu wedi dangos bod y terfyn cyflymder cenedlaethol mewn grym.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "arwydd terfyn cyflymder" ("*speed limit sign*"), mewn perthynas â cherbyd, yw arwydd traffig o'r math a ddangosir yn niagram 670 yn Atodlen 2 i Reoliadau 2002, sef arwydd—

(**1**) O.S. 1982/1163, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1983/374, O.S. 1984/1479, O.S. 1992/1364 ac O.S. 2004/3258.
(**2**) Rhan 1 o O.S. 2002/3113, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/1670; mae offerynnau diwygio eraill ond nid ydynt yn berthnasol.

(a) a roddir ar unrhyw ran o ffordd a bennir yn yr Atodlen, neu gerllaw iddi; a

(b) a anelir at draffig ar y gerbytffordd y gyrrir y cerbyd arni;

mae "ffordd" ("*road*") yn cynnwys y llain galed a'r llain ymyl gyfagos; ac

mae i "terfyn cyflymder cenedlaethol" yr ystyr a roddir i "national speed limit" gan reoliad 5(2) o Reoliadau 2002 ac ystyr arwydd traffig sy'n dangos bod y terfyn cyflymder cenedlaethol mewn grym yw arwydd traffig o'r math a ddangosir yn niagram 671 yn Atodlen 2 i Reoliadau 2002, sef arwydd—

(a) a roddir ar ffordd neu gerllaw iddi; a

(b) a anelir at draffig ar y gerbytffordd y gyrrir y cerbyd arni.

**Dirymu**

**4.** Mae Rheoliadau Traffordd yr M4 (O Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2011(**3**) drwy hyn wedi eu dirymu.

*Edwina Hart*
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

30 Mawrth 2015

(**3**) O.S. 2011 Rhif 94 (Cy. 19).